"CREDWCH YR EFENGYL"

Nodyn i'r siaradwr:
Dyfnhewch werthfawrogiad y gynulleidfa i'r ffaith fod yn rhaid i bob un sy'n disgwyl bod yn rhan o drefn y Deyrnas ddangos hynny yn y modd mae'n byw ei fywyd

MAE NEWYDDION DA AR GAEL YN RHWYDD (8 mun.)

Beth fyddech chi'n ei ystyried fyddai'r newyddion gorau un? heddwch byd? dileu troseddu? diwedd ar bob llygredd? darganfod ffynhonnell ynni economaidd, ddiddiwedd?

Byddai'r pethau hyn yn newyddion da, ond fe fyddai pobl yn parhau i heneiddio, clafychu, marw

Byddai problemau personol a theuluol gofidus yn parhau'n boendod inni

Byddai'n rhaid i unrhyw newyddion gwirioneddol dda i bob un sicrhau tawelwch meddwl a ffordd o ymdopi â phroblemau'r presennol, gyda gobaith dileu problemau iechyd hyd yn oed yn y dyfodol (*g*78 7/8 3-5)

Gwelir yn amlwg o hanes na fedrai dyn na chorff o ddynion, na chyfundrefn na llywodraeth fod yn ffynhonnell unrhyw nodwedd y newyddion da sydd ei hangen arnom (Jer 10:23)

Yn sicr ni fyddai diffyg mewn unrhyw un o'r ffactorau sydd yn angenrheidiol er lles llwyr a hapusrwydd inni yn y newyddion da y byddai Duw'r Creawdwr yn ei anfon (Rhuf 8:31, 32; *w*75 702)

'Ydi'r fath newyddion da ar gael?

Ydi, ac nid peth anodd ydi inni ei gael (Act 17:27; 2Pedr 3:9)

Mae'r Apostol Paul yn dangos fel rhai sy'n clywed y newyddion da wrth law, nad oes rhaid inni chwilio'n flinedig amdano (Rhuf 10:6-10; *w*72 694; *g*68 11/22 28)

YR HYN MAE'R NEWYDDION DA YN SÔN AMDANO (12 mun.)

Mae'r Beibl yn sôn am "Efengyl Duw," "Efengyl Crist," ac "efengyl y deyrnas" (Rhuf 15:16, 19; Math 9:35; *w*79 12/15 5-6; *it*-1 986-8)

Mae'r tri theitl hyn yn addas gan fod y newyddion da, y mae Jehofah yn Ffynhonnell iddo, yn cynnwys yr holl wirionedd y siaradodd Iesu Grist ac yr ysgrifennodd y disgyblion amdano

Mae'r newyddion da, yr efengyl, yn canoli ar y Brenin, Iesu Grist, a'i Deyrnas (Mth 6:10)

'Roedd ffyddlondeb glynu wrth yr efengyl yn cael ei ystyried gan Iesu yn bwysicach na bywyd presennol unigolyn (Mc 8:35)

'Roedd Paul yn cydnabod fod ffyddlon gyhoeddi'r efengyl yn hanfodol (1Cor 9:16; 2Tim 1:8)

Oherwydd gwneud safiad dros yr efengyl gallai person ar adegau efallai golli eiddo neu gael ei erlid (Mc 10:29, 30)

Mae derbyn yr efengyl yn golygu iachawdwriaeth; mae gwrthod yn dod â dinistr (2Thes 1:6-8)

Daw'r efengyl â llawer o fuddion personol *'nawr* i'r unigolyn sy'n gafael ynddi (1Tim 4:8; rhestrwch rai o'r myrdd bendithion a'r llawenydd a gawn ni 'nawr os deuwn yn weision i Dduw)

Mae'r efengyl yn hybu geirwiredd, sy'n dod â llawer o fuddion i'r unigolyn (*w*77 620)

Mae'n hybu gonestrwydd, a'i fuddion (*w*88 2/15 6-7; *w*87 11/15 5-6)

Mae'n datblygu uniondeb moesol (*w*86 7/15 6)

Daw hyn â llawer budd, hyd yn oed os yw rhai yn dweud ei fod yn anymarferol (*g*85 11/8 17-19; *yp* 188-9; *w*85 8/15 15)

CYFRIFAI'R RHAI GYNT YR EFENGYL YN RHYWBETH HYNOD WERTHFAWR (15 mun.)

"Gorfoleddu" a wnaeth Abraham, er nad yn deall popeth am yr efengyl, pan gyhoeddwyd yr efengyl ymlaen llaw iddo (Ioan 8:56)

Beth oedd yr efengyl yn oes Abraham a achosodd iddo lawenhau? (Gal 3:8)

'Roedd ganddo ffydd ddibetrus yn addewid Jehofah y câi cenhedloedd eu bendithio; 'roedd Abraham yn *gwirioneddol gredu* ac fe weithredodd ar y ffydd honno (Gen 15:5, 6; Rhuf 4:3, 18-22)

'Roedd Abraham yn ystyried yr efengyl yn rhywbeth gwerthfawr ac 'roedd yn fodlon amlygu hynny, felly fe garodd Duw ef (Deut 7:7, 8; 2Bren 13:23; Rhuf 4:11, 12; Heb 11:17-19; *w*89 7/1 18-23; *w*87 1/15 13)

Yng nghyfnod Moses gwelwyd agwedd ychwanegol i'r efengyl: gwaredigaeth o'r Aifft a mynd i mewn i Wlad yr Addewid (*w*74 333)

Trysorai Moses wybodaeth am yr efengyl a'i gyfran yn gwasanaethu (Heb 11:24-28; *w*92 11/15 30; *w*87 1/15 13-15)

Gwasanaethodd Abraham, Moses, a dynion gynt yn ffyddlon er gwybod fod y realaeth yn y dyfodol pell (Heb 11:10, 13-16, 32-39; *w*87 1/15 13, 16-19)

Yn nyddiau'r apostolion, daeth dimensiwn newydd i'r efengyl (*it*-1 988 ¶4)

Amlygodd yr apostolion i Iesu, wedi iddo roi ei fywyd yn bridwerth, esgyn i'r nefoedd a'i fod yna'n eistedd ar ddeheulaw Duw (Heb 10:12, 13)

Pregethasant efengyl dychweliad Iesu a'i Deyrnas oedd i ddod (2Tim 4:1)

'Roedd eu sêl dros yr efengyl hon yn sicr (2Cor 11:23-28; *w*82 12/1 12-22)

Gweithiodd Paul yn ddiflino i gyhoeddi'r efengyl mor eang a phosib' ac i adeiladu'r gynulleidfa i wynebu'r hyn oedd i ddod yn ei herbyn, yn arbennig y gwrthgiliad mawr

Trosglwyddodd bethau a wyddai i wŷr ffyddlon a fedrai barhau gwaith yr efengyl wedi iddo ef ymadael â hwy; ceisiodd ddysgu *popeth* a wyddai iddynt (Act 20:19, 20; 1Tim 3:14, 15; 2Tim 2:2)

Gwnaeth Paul hyn oll er y gwyddai y byddai farw cyn "Dydd yr Arglwydd" (2Thes 2:2, 3, 7)

Gwyddai'r apostol, yn hanes pob un ohonom, fod 'y waredigaeth yn nes atom 'nawr nag oedd pan ddaethom i gredu' (Rhuf 13:11; 1Cor 7:29)

Yn ein hoes ni mae'r efengyl yn well ac yn fwy o achos brys nag erioed (*w*74 331 ¶13)

Mae'r Brenin 'nawr wedi'i orseddu! Mae'r Deyrnas 'nawr wedi'i sefydlu!

Daw diwedd y drefn bresennol ar fyrder! Mae'r byd newydd gerllaw!

Mae'r "Efengyl hon am y deyrnas" 'nawr yn cael ei phregethu'n frwdfrydig (Mth 24:14)

Rhaid "disgwyl am Ddydd Duw a phrysuro ei ddyfodiad" (2Pedr 3:12)

'YDI'R EFENGYL YN DRYSOR I CHI? (10 mun.)

Gall pob un ohonom ofyn iddo'i hun:

''Ydw i'n awyddus i ddysgu rhagor am yr efengyl, ei iawn *ddeall* hi, ei chymhwyso yn fy myw-bob-dydd, a helpu eraill i ddysgu amdani?' (*w*79 12/15 8)

Gallwn gynyddu'n ffydd yn yr efengyl a'n gwerthfawrogiad ohoni wrth roi ystyriaeth fanylach i'r dynion ffyddlon gynt a diddordeb yr angylion ynddi (1Pedr 1:10-12; *bw* 20-2)

'Rydym wedi'n hamgylchynu gan lawer o frodyr sydd yr un mor ffyddlon heddiw â'r dynion hynny gynt ac sy'n derbyn bendithion wrth ganlyn yr efengyl (*w*90 1/1 4-6; *w*90 7/15 31)

Yr anrhydedd fwyaf un ydi cynrychioli Arglwydd Frenin y Bydysawd 'nawr mewn byd sy'n ei wrthwynebu a helpu'r rhai hynny sydd â chymaint o angen yr efengyl arnyn' nhw

'Fydd 'na byth eto gyfle o'r fath

Mae cyfarwyddyd a chefnogaeth yr angylion gennym, a'u gwyliadwriaeth drosom (1Tim 5:21; Heb 1:14; Dat 14:6)

Gan i chwi weld gwerth yr efengyl yn eich bywyd chi ac eraill, dangoswch ffydd hefyd yn yr efengyl wrth i chi ei chyflwyno

Sylweddolwch ei grym trawsffurfio a'i gallu i feddalu'r galon galetaf ac i ddod â llawenydd diderfyn a hapusrwydd i'r rhai sy'n ei derbyn yn ddiolchgar (Rhuf 1:16, 17)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)